| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**<br>**BRO'R WENYNEN, GWENT 2027** |
| | **Cystadleuaeth 84 – Unawd Cerdd Dant Bl.5 a 6** |
| | **Breuddwydio, Mared Jones** |

Cysgu wnaf fan hyn liw nos
Yn dawel fel llygoden.
Cysgu wnaf heb freuddwyd dlos.
Daw hunlle ddu fel carthen.

Gwrach sy'n cuddio yn y gwrych
A broga sy'n y brigau.
Gwaed dan draed ac ar y drych.
Gelynion heb galonnau.

Bwganod gwyn fan hyn yn hwyr
Yn dechrau ar eu dychryn.
Noson oer a'r lloer yn llwyr
Ryfeddu ar y fyddin.

Ar amrantiad llygaid syn
Sy'n agor yn llawn dychryn.
Blanced wlyb a'r chwys fel llyn.
Dwi'n crynu fel daeargryn.

Nid cysgu wnes fan hyn liw nos,
Ond dianc rhag fy hunlle.
Efallai wir daw breuddwyd dlos
Yfory – croesi byse'.